

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Parc Dewi Sant:
Hafan Derwen –**

**Uned Gofal Dwys Seiciatrig
Cwm Seren ac Uned Seiciatrig
Diogelwch Isel Cwm Seren**

Dyddiad arolygu: 23 – 25 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 28 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Methodoleg	5
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	8
	Safonau Craidd.....	8
	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	19
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	22
6.	Y Camau Nesaf.....	24
	Atodiad A	25

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Parc Dewi Sant yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yn uned Hafan Derwen. Mae'r uned yn cynnwys:

- Uned Gofal Dwys Seiciatrig Cwm Seren – chwe gwely
- Uned Seiciatrig Diogelwch Isel Cwm Seren – 14 gwely ar y ward a phedwar gwely ychwanegol ar gyfer gofal llai dwys.

4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad ym Mharc Dewi Sant ar draws Uned Gofal Dwys Seiciatrig Cwm Seren ac Uned Seiciatrig Diogelwch Isel Cwm Seren.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cydweithredu rhwng timau ar draws y ddwy ward i ddiwallu anghenion y grwpiau cleifion
- Arweinyddiaeth gref ar y ddwy ward gyda thimau sydd wedi eu hysgogi'n dda
- Staff yn gofalu am gleifion mewn modd rhagweithiol, ac yn ymateb mewn ffordd dawel a phroffesiynol i'r heriau ar eu wardiau
- Prosesau cadarn ar gyfer monitro defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Capasiti o fewn ei wasanaeth iechyd meddwl i ddiwallu anghenion y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu
- Gwelliant ar unwaith i gyfleusterau Adran 136 yn Ysbyty Parc Dewi Sant
- Gwelliant ar unwaith i'r gwaith o gynnal a chadw mannau cleifion ar draws yr uned iechyd meddwl
- Gwelliant i ddarpariaeth gweithgareddau therapiwtig ar wardiau
- Gwelliant i bolisiâu a gweithdrefnau'r ystafell glinigol.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae'r uned iechyd meddwl yn uned annibynnol wedi'i lleoli ar safle Ysbyty Parc Dewi Sant. Mae gan yr uned iechyd meddwl ei mynedfa a'i derbynfa ei hun, ac wrth fynd i'r cyntedd mae drysau'n arwain at bob un o'r wardiau. Wrth inni gyrraedd, a thrwy gydol yr arolygiad, gwelwyd bod y man hwn, a'r ffenestri, y drysau, y fframiau a chanopi'r cyntedd, yn fudr ac wedi eu staenio'n drwm. Roedd yn amlwg nad oedd y mannau hyn wedi cael eu glanhau ers amser maith iawn.

Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio trwy lythyr sicrwydd ar unwaith at y prif weithredwr ar ôl yr arolygiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau bod contractwr wedi'i drefnu i gynnal gwaith glanhau lefel uchel, a fydd yn ddechrau ar 5 Medi 2016. Bydd hyn yn cynnwys llechi'r patio, soffitiau lefel uchel, canopi'r fynedfa, fframiau ffenestri, drysau, cysgodfeydd, a waliau allanol. Mae glanhawyr ffenestri wedi eu trefnu i ddechrau ar 19 Medi 2016, i lanhau'r ffenestri mewnol ac allanol trwy gydol yr uned.

Roedd drysau'r wardiau o dan glo, a cheid mynediad atynt ag allwedd ffob neu drwy system intercom. Roedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn ward rhyw cymysg, a'r Uned Seiciatrig Diogelwch Isel ar gyfer gwrywod yn unig.

Er bod yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi'i dylunio ar gyfer chwe gwely, roedd ynddi wyth ystafell wely unigol. Roedd gan yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig fan dibyniaeth uchel, a oedd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer claf i ffwrdd o gleifion eraill yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Roedd hefyd ystafell wahanu² yn y man hwn. Yn y gyda'r nos ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, roedd y cynfasau ar y gwely yn yr ystafell wahanu wedi bod yno ers i'r ystafell gael ei defnyddio gan glaf cyn ein harolygiad. Dylid symud unrhyw ddillad gwely o'r ystafell ar ôl ei defnyddio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell wahanu yn cael ei chlirio a'i glanhau ar ôl iddi gael ei defnyddio.

Nid oedd cloc ar gael yn yr ystafell wahanu er mwyn i'r claf wybod faint o'r gloch oedd hi yn ystod y dydd nac yn y nos. Argymhellir y rhoddir cloc o fewn golwg cleifion pan fyddant yn yr ystafell wahanu.

²

Nid oedd unrhyw gyfleusterau toiled yn yr ystafell wahanu ei hun. Fodd bynnag, roedd cyfleusterau toiled ar gael mewn ystafell gyferbyn. Nid oedd hyn yn ddelfrydol oherwydd y gallai peri problemau ynglŷn â rheoli cleifion wrth iddynt gael mynediad at y cyfleusterau toiled. Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r cyfleusterau toiled yn yr ystafell wahanu.

Roedd darn o'r llawr yn y man dibyniaeth uchel yn aros i gael ei newid. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad nid oedd dyddiad i gwblhau'r gwaith wedi cael ei gadarnhau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y darn o lawr yn y man dibyniaeth uchel yn cael ei gyweirio.

Roedd gan yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel 18 ystafell wely unigol. Roedd yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel wedi'i rhannu yn ddwy ran, gyda 14 gwely ym mhrif ran yr uned a phedwar gwely yn y man gofal llai dwys, lle byddai cleifion yn fwy annibynnol ar brif ran yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel. Roedd gan yr ystafelloedd gwely ar y ddwy ward dai bach a chawodydd en-suite.

Fodd bynnag, roedd y drysau i'r cyfleusterau en-suite wedi cael eu symud gan y bwrdd iechyd a llenni wedi cael eu rhoi yn eu lle. Fodd bynnag, cynwodd staff a cleifion nad oedd y llenni'n addas gan eu bod yn symud ac yn sbarduno'r synwryddion ar y goleuadau, ac yn tarfu ar gwsg cleifion. Roedd llawer o'r tai bach a chawodydd en-suite wedi eu marcio a'u staenio oherwydd eu bod wedi cael eu defnyddio dros gyfod hir, ac roedd angen eu hailwampio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y tai bach a'r cawodydd en-suite yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn addas i'r diben.

Yn ogystal â thai bach a'r cawodydd en-suite a oedd ar gael yn ystafelloedd gwely'r cleifion, roedd gan bob ward tai bach a baddonau.

Roedd gan yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig lolfaf lle y gallai cleifion eistedd a chymdeithasu â'i gilydd. Roedd lolfaf/ystafell fwytfa yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel, gyda byrddau bwytfa a chadeiriau ar un pen, a'r seddi lolfaf ar y pen arall. Fodd bynnag, roedd seddi ar gyfer chwech o bobl yn unig yn y lolfaf, ac roedd y rhain wedi eu treulio a'u staenio'n drwm.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o ddodrefn yn lolfeydd ac ystafelloedd bwytfa'r cleifion, a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn addas i'r diben.

Roedd gan brif ran yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel ystafell fach a adwaenid fel y bar diodydd, lle y gallai cleifion gael mynediad at ddiodydd poeth ac oer yn ddirwystr, ac roedd cegin yn y man gofal llai dwys ar gyfer cleifion yn y man hwnnw. Oherwydd ymddygiad posibl cleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a oedd yn peri risg, roedd cegin o dan glo lle y gallai staff roi diodydd poeth ac oer i gleifion.

Roedd gan bob ward ystafelloedd cyfarfod/ymwelwyr lle y gallai cleifion siarad â staff neu ymwelwyr yn breifat.

Roedd nifer o ddarluniadau deniadol wedi eu harddangos ar y ddwy ward. Fodd bynnag, roedd y gwaith o gynnal a chadw'r addurniadau yn y mannau cleifion trwy gydol y ddwy ward yn wael. Roedd carpedi ar y wardiau wedi eu staenio'n drwm, gwaith paentio wedi marcio a dodrefn wedi treulio, ac roedd angen ailwampio'r wardiau er mwyn gwella amgylchedd y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ailwampio'r amgylchedd i sicrhau bod y mannau cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas i'r diben.

Roedd angen adolygu arwyddion trwy gydol yr uned i sicrhau bod yr arwyddion priodol a chywir ar waith, a'u bod yn addas i'r grŵp cleifion. Trwy gydol yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, roedd arwyddion wedi cael eu symud oherwydd y risg roedd ymddygiad rhai cleifion yn ei pheri. Nodwyd hefyd bod yr arwyddion ar rai o'r drysau yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a'r Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn anghywir. Nid oedd yr holl arwyddion yn ddwyieithog. Byddai arwyddion dwyieithog yn fanteisiol i rai cleifion mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion priodol wedi eu harddangos o gwmpas y wardiau ar gyfer cleifion, staff ac ymwelwyr.

Yn ogystal ag arwyddion, prin oedd y wybodaeth ar gyfer cleifion wedi'i harddangos o gwmpas y wardiau. Byddem yn disgwyl gweld gwybodaeth sy'n hawdd ei chyrraedd gan gleifion, megis gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth, gweithgareddau a bwydlenni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gyfer cleifion yn cael ei harddangos ar y wardiau.

Nid oedd ffitiadau priodol ar yr holl ddrysau tân mewnol yn y coridorau ar y ddwy ward, er mwyn eu cadw ar agor pan oedd angen, ac i'w cau yn

awtomatig pe bai larwm tân yn cael ei sbarduno. Roedd nifer o ddrysau wedi eu dal ar agor â lletem, sy'n peri risg bosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y mecanweithiau ar gyfer dal a chau'r holl ddrysau tân mewnol yn gweithio.

Roedd y ffenestri trwy gydol yr uned iechyd meddwl yn fudr. Dywedodd staff nad oedd tu allan ffenestri wedi cael ei lanhau ers nifer o flynyddoedd, ar ôl i gontract gyda chwmni allanol ddod i ben.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith o lanhau'r ffenestri'n cael ei gwblhau'n rheolaidd.

Roedd gan y ddwy ward fynediad at erddi caeedig rhwng 9am a hanner nos. Roedd gan un ardd furlun mawr a oedd yn gwella amgylchedd yr ardd; fodd bynnag, ar y cyfan roedd y gerddi'n aflêr ac roedd y waliau'n fudr ac wedi eu staenio'n drwm. Oherwydd y llaid a oedd wedi casglu ar y cerrig palmant, roedd y rhain yn dod yn llithrig pan oedd y tywydd yn wlyb, ac o'r herwydd roedd y ward yn cau'r ardd yn ystod y cyfnodau hyn i atal damweiniau. Roedd y ffasgiâu ar y to wedi eu staenio'n drwm ac roedd chwyn yn tyfu yn y cwteri. Roedd yn amlwg nad oedd y mannau hyn chwaith wedi cael eu glanhau ers amser maith.

Cafodd y materion hyn eu huwchgyfeirio trwy lythyr sicrwydd ar unwaith at y prif weithredwr ar ôl yr arolygiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau i iard Uned Seiciatrig Diogelwch Isel Cwm Seren gael ei glanhau ar ddydd Gwener, 26 Awst 2016, ac i'r contractwr garddio ymweld a thorri'r gwair trwy'r holl uned.

Fel y nodwyd uchod, trefnwyd contractwr i barhau â'r gwaith glanhau lefel uchel, gan ddechrau ar 5 Medi 2016. Bydd hyn yn cynnwys llechi'r patio, soffitiau lefel uchel, canopi'r fynedfa, fframiau ffenestri, drysau, cysgodfeydd, a waliau allanol.

Roedd gan yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel ardd therapiwtig i gleifion yr oedd cleifion yn cael mynediad ati gyda goruchwyliaeth staff; roedd yr ardd hon yn ddymunol iawn ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd cleifion wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o dyfu ffrwythau, llysiau a blodau yn y man hwn, ynghyd â chynnal a chadw'r ardd.

Gwelsom nad oedd rhai o ddodrefn yr ardd wedi cael eu gosod yn eu lle. Roedd hyn yn peryglu diogelwch staff a chleifion, gan ei bod yn bosibl y gellid

defnyddio darn o ddodrefn gardd nad yw wedi'i osod i achosi difrod neu i ddianc o'r gerddi diogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddodrefn gardd yn cael eu gosod yn eu lle.

Roedd gan yr ysbyty ystafell ar bwys prif fynedfa'r uned a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer derbyniadau o dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Roedd yr ystafell yn cael ei defnyddio'n ystafell gyfarfod hefyd, a bwrdd a chadeiriau cyfarfod oedd yr unig ddodrefn ynddi. Nid oedd dodrefn cyfforddus ar gael a oedd yn addas i bobl sy'n cael eu derbyn i'r man hwn, lle mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn aros am hyd at 72 awr. Nid oedd yr ystafell yn briodol i'r diben hwn, ac fe allai gynyddu'r trallod i'r unigolyn sydd wedi'i dderbyn i'r ysbyty.

Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio trwy lythyr sicrwydd ar unwaith at y prif weithredwr ar ôl yr arolygiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau bod yr ystafell yn parhau i gael ei defnyddio at ddibenion Adran 136 ar hyn o bryd, gan na nodwyd unrhyw le arall sydd ar gael ar unwaith y gellir ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r bwrdd iechyd wedi ymroddi i wella'r cyfleusterau; rhoddwyd soffâ yn yr ystafell ddynodedig ac mae'r bwrdd a rhai o'r cadeiriau wedi cael eu symud. Mae soffâ newydd a dodrefn meddal wedi cael eu harchebu, ac roedd y broses gaffael yn mynd rhagddi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell Adran 136 yn cael ei dodrefnu'n briodol.

Yn bennaf, roedd y cyfleuster Adran 136 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion o Geredigion, gan nad oes darpariaeth ar gyfer cleifion mewnol yng Ngheredigion. Felly, os oes rhaid derbyn unigolyn yn dilyn asesiad Adran 136, yn Sir Gaerfyrddin y byddai, nid Ceredigion. O ganlyniad, nid oedd y cyfleuster Adran 136 o fewn lleoliad y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu yng Ngheredigion. Gall hyn gynyddu'r trallod i bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd y pellter maent wedi'i deithio.

Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio trwy lythyr sicrwydd ar unwaith at y prif weithredwr ar ôl yr arolygiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau, yn dilyn cyfarfod rhwng y bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol a'r heddlu yn 2015, y cytunwyd ar ddefnyddio'r cyfleuster Adran 136 sydd ar gael yng Nghwm Seren dros dro, nes i opsiwn lleol mwy addas fod ar gael.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn adolygu ei fodel gwasanaeth trwy'r rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys datblygu cyfleusterau Adran 136 sy'n cydymffurfio â Choncordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl.

Trwy'r holl wardiau iechyd meddwl, roedd y tymheredd yn anghyfforddus o boeth ar gyfer cleifion a staff. Dywedodd staff fod hon yn broblem barhaus ac nid yn ystod ein harolygiad yn unig. Dywedodd staff eu bod wedi hysbysu adran ystadau'r bwrdd iechyd am y broblem hon, ond nid oedd y broblem wedi cael ei datrys. Nid yw'n briodol i'r tymheredd fod yn rhy boeth nac yn rhy oer yn ystod misoedd y gaeaf. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatrys y broblem ynglŷn â'r tymheredd ar y wardiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd y wardiau'n briodol ac y gall staff ei reoli trwy gydol y flwyddyn.

Diogelwch

Trwy gydol ein harolygiad, roedd yn amlwg bod capasiti gwasanaethau iechyd meddwl y bwrdd iechyd ar gyfer cleifion mewnol o dan bwysau. Trwy gydol yr arolygiad, roedd cydweithwyr yn y bwrdd iechyd yn cysylltu â'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig i geisio cael iddi dderbyn cleifion i'r ward a fyddai'n mynd â niferoedd cleifion dros y nifer dynodedig o chwech.

Yn ystod yr arolygiad, roedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn gofalu am saith claf, un claf dros y nifer dynodedig ar gyfer y ward. Cyn ein harolygiad, yn y gyda'r nos ar un diwrnod, bu naw claf yn derbyn gofal yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig chwe gwely, gyda'r ddwy ystafell wely a oedd wedi cael eu datgomisiynu a'r gwely yn yr ystafell wahanu'n cael eu defnyddio er mwyn rhoi gwely i bob claf gysgu arno. Ni ddylid defnyddio'r ystafell wahanu er mwyn bodloni anghenion capasiti gwasanaeth i gleifion mewnol y bwrdd iechyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o welyau o fewn ei wasanaeth iechyd meddwl i ddiwallu anghenion y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu.

Oherwydd y pwysau ar gapasiti gwasanaeth i gleifion mewnol y bwrdd iechyd, roedd yn arferol darparu gofal ar gyfer cleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig nad oedd angen cymorth dwys a chyfyngiadau uned gofal dwys

seiciatrig arnynt. Nid yw'r arfer hwn yn dilyn yr hyn a nodir yn y Cod Ymarfer ynglŷn â'r egwyddor o ddefnyddio'r dull lleiaf caethiwus, ac nid yw'r amgylchedd yn briodol ar gyfer cleifion nad oes arnynt angen y lefel hon o ofal. Oherwydd y niferoedd ychwanegol o gleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn ystod y cyfnodau hyn, mae hefyd yn lleihau'r gofal therapiwtig dwys sydd ar gael ar gyfer y cleifion y mae ei angen arnynt.

Er mwyn hwyluso'r defnydd o welyau ychwanegol yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, fe wnaeth y bwrdd iechyd gynyddu niferoedd y staff ar gyfer y sifftiau; fodd bynnag, roedd dibyniaeth ar staff asiantaeth a staff cronfa'r bwrdd iechyd. Mae defnyddio staff cronfa neu staff asiantaeth nad ydynt yn staff neilltuedig ar gyfer uned gofal dwys seiciatrig yn lleihau dilyniant staff a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer darparu gofal ar yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o adnoddau staff o fewn y bwrdd iechyd i ddarparu gofal ar gyfer y cleifion yn ei wasanaeth.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, ac roedd system larwm galw am nyrs yn ystafelloedd gwely a mannau'r cleifion. Roedd staff yn cario larymau pe bai angen galw am gymorth. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd ni pe bai'r larwm yn cael ei ganu gan aelod o staff, yna dim ond larwm y nyrs â gofal a fyddai'n canu, nid larymau'r holl staff.

Roedd y staff yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi dyfeisio eu proses eu hunain i geisio sicrhau y byddai canu'r larwm yn hysbysu'r holl aelodau staff bod angen cymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn briodol gan ei fod yn dibynnu ar staff bod yn gyfarwydd â'r camau ychwanegol hyn. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system larwm yn hysbysu'r holl aelodau staff bod angen cymorth, er mwyn diogelwch cleifion a staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system larwm staff yn hysbysu'r holl aelodau staff pan fydd yn cael ei gweithredu.

Y tîm amlddisgyblaethol

Roedd gan yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a'r Uned Seiciatrig Diogelwch Isel reolwr yr un, a oedd yn cael eu cefnogi gan dimau sefydlog o nyrsys a chynorthwywyr gofal iechyd. Arsylwyd ar forâl y staff ar y ddwy ward ac roedd yn gadarnhaol nodi ei fod yn dda, gyda thimau ysgogedig ar y ddwy ward.

Roedd yn amlwg bod timau'r ddwy ward yn cydweithredu â'i gilydd yn agos er mwyn diwallu anghenion y grwpiau cleifion.

Gwelsom fod staff yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn rhagweithiol trwy gydol yr arolygiad, yn ymateb mewn ffordd dawel a phroffesiynol i heriau'r ward. Roedd cleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn siarad yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofal roedd y staff yn ei ddarparu, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan oedd cleifion yn cael anawsterau.

Nid oedd therapydd galwedigaethol cymwysedig ar gyfer y wardiau iechyd meddwl ym Mharc Dewi Sant; roedd dau dechnegydd therapi galwedigaethol llawn amser yn darparu mewnbwn ar y wardiau yn ystod yr wythnos.

Fe'n hysbyswyd ni bod y swydd therapydd galwedigaethol wedi bod yn wag ers dros flwyddyn, ac nid oedd ymdrechion y bwrdd iechyd i benodi unigolyn i'r swydd wedi bod yn llwyddiannus.

Er bod y bwrdd iechyd wedi gwneud ymdrech i liniaru ar y diffyg therapi galwedigaethol trwy gymorth gan therapyddion galwedigaethol eraill o fewn y bwrdd iechyd, nid oedd eu capasiti'n caniatáu ond am y mewnbwn lleiaf i'r wardiau iechyd meddwl ym Mharc Dewi Sant. Golygai'r sefyllfa barhaus fod y mewnbwn therapi galwedigaethol roedd cleifion ym Mharc Dewi Sant yn ei dderbyn i'w gofal yn gyfyngedig iawn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fewnbwn therapi galwedigaethol yn cael ei ddarparu ar gyfer Parc Dewi Sant, tra bo'r swydd therapydd galwedigaethol yn parhau i fod yn wag.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymgeisydd addas yn cael ei recriwtio i'r swydd therapydd galwedigaethol wag.

Yn ystod 2012, cafodd adran seicoleg y bwrdd iechyd ei hailstrwythuro. Arweiniodd hyn at fewnbwn mwy i wardiau iechyd meddwl aciwt o fewn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad roedd diffyg mewnbwn seicolegol i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac roedd swydd seicoleg wag yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel. Roedd yn amlwg wrth siarad ag aelodau staff y byddai'r ddarpariaeth gofal ar ei hennill o gynyddu'r lefel gyfredol o fewnbwn seicolegol i'r wardiau iechyd meddwl ym Mharc Dewi Sant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fewnbwn seicolegol yn cael ei ddarparu ar gyfer Parc Dewi Sant, tra bo'r swydd seicoleg yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn parhau i fod yn wag.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymgeisydd addas yn cael ei recriwtio i'r swydd seicoleg wag.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod mentor cymheiriaid ar gyfer cleifion yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel, ac roedd y staff yn uchel eu parch yn ei gylch. Roedd y mentor cymheiriaid yn helpu cleifion i gymryd rhan mewn prosiectau ar y ward ac oddi arni.

Preifatrwydd ac urddas

Mae gan yr holl gleifion ystafell â chyfleusterau en-suite, a dywedodd cleifion y byddai staff, ar y cyfan, yn parchu eu preifatrwydd ac urddas, a chnocio ar ddrws eu hystafelloedd gwely cyn dod i mewn.

Gwnaeth ein harolygiad o'r amgylchedd nodi nifer o faterion ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas. Ar agor oedd y safle diofyn ar gyfer paneli arsylwi ystafelloedd gwely. Roedd nifer o baneli arsylwi wedi cael eu gadael ar agor ar ôl i staff gynnal arsylwadau. Wrth siarad â staff, daeth i'r amlwg nad oedd yn arferol cadw paneli arsylwi ar gau a'u hagor dim ond i gynnal arsylwad. Mae gadael y paneli arsylwi ar agor yn effeithio ar breifatrwydd cleifion pan fyddant yn eu hystafelloedd gwely.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai ar gau yw'r safle diofyn ar gyfer paneli arsylwi.

Roedd gan rai ystafelloedd gwely yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel fleind integredig ar y ffenestri ar bwys y drysau at ddibenion arsylwi. Fodd bynnag, nid oedd y rhain i gyd yn gweithio, ac o ganlyniad roedd yn rhaid i'r aelod o staff a oedd yn cynnal yr arsylwadau agor drws yr ystafell wely bob tro, a allai effeithio ar gwsgr y claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fleindiau arsylwi integredig yn gweithio.

Roedd gan gleifion fynediad at ffonau talu i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu; roedd cleifion yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn cael defnyddio eu ffonau symudol yn yr ardd, neu pan fyddant i ffwrdd o'r ward. Fodd bynnag, roedd y cortyn ar gyfer set law'r ffôn talu yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn rhy fyr i'r ffôn gael ei ddefnyddio'n gyfforddus. Dywedodd staff ei bod yn fyr er

mwyn atal unrhyw ymdrechion gan gleifion i niweidio eu hunain. Fodd bynnag, roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i gleifion ddefnyddio'r ffôn oherwydd hyd cortyn y set law.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod set law'r ffôn yn addas i'r diben.

Roedd gan bob swyddfa ward fwrdd 'cipolwg ar statws cleifion' a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff yn gorchuddio'r rhain ar ôl iddynt eu defnyddio; o ganlyniad nid oedd yn bosibl gweld y wybodaeth gyfrinachol wrth fynd i mewn i'r swyddfa neu wrth edrych trwy ffenestr y swyddfa.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd y ddau dechnegydd therapi galwedigaethol yn darparu gweithgareddau ar y ddwy ward; fodd bynnag, roeddent yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gyda chleifion yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel. Roedd y gweithgareddau ar gyfer cleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn gyfyngedig iawn. Er mai athroniaeth unedau gofal dwys seiciatrig yw cadw symbyliad yn isel, roedd yn amlwg bod angen rhagor o weithgareddau therapiwtig ar gleifion a oedd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig nag yr oeddent yn eu derbyn ar y pryd. Dywedodd staff nad oedd llawer i gleifion ei wneud yn aml yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ddiflas yn aml ac yn edrych am rywbeth i'w wneud gyda'u hamser. Dywedodd cleifion fod y diflastod hwn yn cael effaith negyddol ar sut roeddent yn teimlo a'u gwellhad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithgareddau therapiwtig priodol ar gyfer yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig.

Roedd gan y ddau gynorthwyydd therapi galwedigaethol raglen o weithgareddau a, lle roedd hynny'n bosibl, roeddent yn darparu gweithgareddau ar gyfer cleifion yn y gymuned leol. Roedd cleifion a chanddynt seibiant Adran 17 yn gallu defnyddio eu hamser i fynd allan am dro, neu i fynd i siopa yn yr ardal leol. Gwnaethom siarad â nifer o gleifion a gadarnhaodd eu bod yn gallu gwneud hyn, a'u bod yn cael cyfnodau i ffwrdd o'r wardiau'n brofiad cadarnhaol iddynt.

Roedd yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel wedi sefydlu gardd therapiwtig, a oedd wedi cael ei datblygu gan aelodau o staff a rhai o gleifion yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel. Roedd y man hwn wedi'i gynnal a'i gadw'n dda

iawn, ac yn darparu lle ymlaciol yn yr awyr agored y gallai cleifion ei ddefnyddio gyda goruchwyliaeth staff.

Dywedodd cleifion a staff fod cynrychiolydd y gwasanaeth eiriolaeth yn ymweld â'r ward yn rheolaidd, a gwnaethom nodi ei bresenoldeb ar y ddwy ward yn ystod ein harolygiad.

Ystafelloedd clinigol a rheoli meddyginiaeth

Roedd diffyg llywodraethu ynglŷn â rheoli meddyginiaeth ac arferion clinigol. Nid oedd staff yn gallu dod o hyd i bolisiau cyfredol mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau a gweithdrefnau clinigol. Roedd y dyddiad ar gyfer adolygu'r Polisi Cyffuriau a Reolir, sef mis Mawrth 2015, wedi mynd heibio. Hefyd roedd diffyg gwybodaeth gyfredol am feddyginiaethau ar gael i staff; roedd y copïau o Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain³ a oedd ar gael dyddiedig 2012, 2014 a 2015.

Roedd bag yr offer brys yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn drwm iawn, ac nid oedd troli i gynorthwyo wrth ei gludo pe bai argyfwng. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio trwy lythyr sicrwydd ar unwaith at y prif weithredwr ar ôl yr arolygiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi dweud bod swyddog dadebru wedi cael ei benodi i edrych ar yr offer brys erbyn 9 Medi 2016, a bydd yn rhoi cyngor ynglŷn â'r cyfarpar sydd angen ei archebu ar gyfer cludo'r offer brys. Yna, archebir y cyfarpar hwn ar unwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod cyfarpar priodol wedi'i ddarparu ar gyfer cludo bag yr offer brys.

Roedd yr oergell feddyginiaeth yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel wedi torri ac felly roedd yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn rhannu'r oergell yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Roedd y sefyllfa hon wedi parhau am dros bythefnos. Gwelsom fod y bocsys o feddyginiaeth frys ar y silff ffenestr yn ystafell glinigol yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel. Gallai hyn ddatguddio'r feddyginiaeth i dymereddau uchel ac, o ganlyniad, effeithio ar effeithiolrwydd y feddyginiaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod oergell feddyginiaeth sy'n gweithio ar y ddwy ward.

³Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yw llyfr cyfeirio fferyllol y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys sbectrwm eang o wybodaeth a chynghor ar gyfer rhagnodi a ffarmacoleg. Mae'r wybodaeth yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn cynnwys arwyddion, rhybuddion i atal triniaeth, sgil effeithiau, dosau, categorïau cyfreithiol, enwau a phrisiau fformiwlâu perchnogol a generig sydd ar gael, ac unrhyw bwyntiau nodedig eraill.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymereddau gofynnol.

Nid oedd staff yn gallu dod o hyd i'r polisi ar gyfer rheoli a chofnodi'r stoc yn y cypyrddau meddyginiaeth frys. Mae hyn yn peri'r risg o anghysondebau a diffyg cydymffurfio ar ran y nyrsys.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff fynediad at bolisiâu rheoli meddyginiaeth a gwybodaeth amdanynt i ddiogelu eu hymarfer.

Bwyd a maetheg

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y bwyd a weinid yn yr ysbyty'n ddigonol a'i fod wedi gwella dros y misoedd diwethaf. Roedd pedwar pryd o fwyd yn cael eu cynnig i gleifion bob dydd, gan gynnwys brecwast, cinio, te a swper.

Roedd bwydlen ar gael er mwyn i gleifion ddewis yr hyn yr oeddent am ei fwyta. Fodd bynnag, roedd rhai cleifion yn cwyno bod y prydau bwyd a oedd ar gael yn ailadroddus oherwydd eu bod wedi bod yn yr ysbyty ers amser maith.

Hyfforddiant

Roedd system ar waith er mwyn i staff gael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol, a chadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol.

Roedd cofnodion hyfforddi staff yn cael eu cadw ar system electronig, a oedd yn golygu y gellir monitro cyfraddau cydymffurfio'n hawdd. Roedd staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd hyfforddi roeddent wedi eu derbyn, ond roedd nifer o'r staff yn teimlo y gallai'r hyfforddiant ganolbwyntio mwy ar wardiau iechyd meddwl.

Roedd system ar waith ar gyfer goruchwyllo staff, ac roedd sesiynau'n cael eu cynnal thua phob pedair wythnos. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu dogfennu a bod y trafodaethau'n ystyrlon.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennaeth statudol ar y ddwy ward ym Mharc Dewi Sant. Roedd yn amlwg bod gan y Tîm Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl systemau monitro cryf ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ar gyfer Cymru.

Cadw cleifion

Gwnaethom adolygu'r dogfennau statudol ar gyfer pob un o'r cleifion a gadwyd o dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer asesiad*,⁴ neu Adran 3, *Derbyn ar gyfer triniaeth*.⁵ Roedd o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo o dan Adran 12,⁶ ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cwrdd â'r claf o'r blaen.⁷ Rhoddwyd rhesymau clir ynglŷn â pham mai cadw dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal, a pham nad oedd yn briodol i dderbyn y claf yn anffurfiol. Ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y dogfennau statudol yn nodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn yr ysbyty.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw o dan Adran 3, roedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy⁸ ar gyfer pob achos wedi nodi perthynas agosaf y claf.⁹

Wrth adolygu adroddiadau Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, nodwyd bod y gweithiwr a oedd yn ymdrin ag achos unigol wedi cysylltu â pherthynas agosaf y claf. Roedd copïau o adroddiadau Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael eu cadw gyda dogfennau cadw'r claf unigol.

Pan oedd cais brys o dan Adran 4¹⁰ wedi cael ei ddefnyddio, roedd y rhesymau dros ddefnyddio'r adran hon wedi eu dogfennu, a'r ail argymhelliad wedi'i gwblhau o fewn y terfyn amser o 72 awr.

Cadw parhaus

Pan oedd claf wedi bod yn destun adnewyddiad cyfnod cadw, roedd y ffurflenni cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

Adran 132 – darparu gwybodaeth¹¹

⁴ Adran 2 – wedi'i dderbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

⁵ Adran 3 – wedi'i dderbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

⁶ Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) o dan y Ddeddf fel un sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol.

Mewn gwirionedd, mae byrddau Iechyd Lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

⁷ Pan fo hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymhell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf yn flaenorol – Adran 12(2) y Ddeddf.

⁸ Gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Ddeddf, ac sydd wedi'i gymeradwyo gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau o dan y Ddeddf.

⁹ Unigolyn a ddiffinnir gan Adran 26 y Ddeddf, sydd â hawliau a phwerau penodol o dan y Ddeddf o ran claf y mae'n berthynas agosaf iddo.

¹⁰ Cais i gadw claf er mwyn asesu anhwylder meddyliol a wneir ar sail un argymhelliad meddygol yn unig mewn achosion brys.

Wrth adolygu nodiadau'r cleifion, roedd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu hysbysu'n rheolaidd am eu hawliau o dan Adran 132 y Ddeddf. Cofnodwyd dealltwriaeth y claf o'i hawliau yn ei nodiadau, neu os oedd wedi gwrthod ymwneud â'r broses.

Apelio yn erbyn cael eich cadw

Pe bai cleifion am apelio i'r Tribiwnlysoedd Adolygu lechyd Meddwl, roedd hi'n amlwg y byddai'r broses yn cael ei dilyn.

Cydsynio i driniaeth

Roedd darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58¹² y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir yn achos cleifion a oedd yn ddarostyngedig iddynt. Roedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau'r cleifion, lle roedd hyn yn berthnasol.

Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17¹³

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb o dan Adran 17 wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, ac roedd y terfyn amser neu'r dyddiad adolygu wedi'i gwblhau.

Cleifion cyfyngedig

Pan oedd cleifion wedi eu cadw dan Ran 3 y Ddeddf, *Cleifion sy'n Gysylltiedig ag Achos Troseddol neu sydd o dan Ddeddfryd*, roedd copïau o'r dogfennau a oedd yn gysylltiedig â'u cadw ar gael yn eu ffeiliau.

¹¹ Mae Adran 132 Deddf lechyd Meddwl 1983 yn rhoi cyfrifoldeb ar reolwyr yr ysbyty i gymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod pob claf o dan gadwad yn derbyn gwybodaeth am ei hawliau.

¹² Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, ac mae'r rheolau arbennig yn Adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi. Golyga hyn roi meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol i gleifion sy'n cael eu cadw yn dilyn cyfnod cychwynnol o dri mis.

¹³ Caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty sy'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pum claf ym Mharc Dewi Sant. Roedd y safon o gwblhau'r dogfennau'n amrywio, gyda rhai dogfennau'n methu bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer y cynllun gofal a thriniaeth o dan y Mesur Iechyd Meddwl. Roedd tair set wedi eu cwblhau'n dda, gyda safonau'r Mesur yn cael eu dogfennu'n dda. Fodd bynnag, roedd meysydd sylweddol o gynllunio gofal ar goll yn nau o'r setiau.

Meysydd cyffredin a oedd yn cael eu hepgor yn aml oedd cwblhau gwybodaeth bersonol allweddol megis ethnigrwydd y claf a'i iaith ddewisol. At ei gilydd, roedd diffyg gwybodaeth wedi'i chofnodi ynglŷn â chryfderau cleifion. Roedd hefyd diffyg manylion ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu yn y cynllun gofal, a diffyg amserlenni ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ethnigrwydd cleifion yn cael ei gofnodi bob amser.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod iaith ddewisol y claf yn cael ei chofnodi bob amser.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y camau gweithredu yn y cynlluniau gofal yn nodi'n benodol pwy sy'n gyfrifol, ynghyd ag amserlen y cytunwyd arni.

Nid oedd cofnodion yn nodiadau cleifion o asesiadau galluedd a gynhaliwyd, ynglŷn â dewis ac opsiynau cleifion yn ymwneud â'u gofal a'u triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y clinigwyr cyfrifol yn cofnodi eu hasesiadau galluedd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Gwnaethom nodi hefyd y meysydd canlynol a oedd yn peri pryder:

- Siart cofnodi maeth claf wedi'i chwblhau'n wael gyda llawer o bethau ar goll dros nifer o wythnosau
- Asesiadau risg cleifion nad oeddent wedi cael eu diweddarau ar ôl digwyddiad
- Gofal traed nad oedd yn cael ei ystyried mewn cynllun diabetes.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau'n cael eu llawn gwblhau a'u diweddarau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mharc Dewi Sant yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl:

Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ysbyty:

**Parc Dewi Sant, Hafan Derwen – Uned Gofal Dwys Seiciatrig Cwm Seren
ac Uned Seiciatrig Diogelwch Isel Cwm Seren**

Dyddiad yr Arolygiad:

23 – 25 Awst 2016

Yr hyn y mae angen ei wella	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau'r ystafell wahanu yn cael eu clirio a'u glanhau ar ôl iddi gael ei defnyddio.	Cam Gweithredu Brys Mae staff wedi cael eu hysbysu am yr angen i sicrhau bod cyfleusterau'r ystafell wahanu yn cael eu glanhau a'u dadheintio ar ôl iddi gael ei defnyddio. Glanhawyd yr ystafell wahanu.		Cwblhawyd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y darn o lawr yn y man dibyniaeth uchel yn cael ei gyweirio.	Camau Gweithredu Brys Cynhaliwyd cyfarfod brys rhwng Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Uwch-reolwyr yr Adran Ystadau i sefydlu amserlen glir ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd a glanhau tu allan yr adeilad.		Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y tai bach a'r cawodydd en-suite yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn addas i'r diben.	Camau Gweithredu Brys Nodwyd dyddiad ar gyfer lleihau capasiti gwelyau yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig i ganiatáu dechrau rhaglen dreigl o waith.		Cwblhawyd ac mae gwaith wedi'i ddechrau.
	Camau Gweithredu Arfaethedig Rhaglen dreigl o waith i gael ei chynnal nes i'r gwaith o ailwampio gael ei gwblhau.	Pennaeth Ystadau	31 Rhagfyr 2016

	Bydd gwaith gan yr Adran Ystadau i ddatrys problemau'n eitem sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o ddodrefn yn lolfeydd ac ystafelloedd bwyta'r cleifion, a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn addas i'r diben.	Camau Gweithredu Brys Ymgysylltwyd â defnyddwyr gwasanaeth i drafod darparu dodrefn yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel.		Cwblhawyd
	Camau Gweithredu Arfaethedig Cyfnewid y soffas yn lolfeydd yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Archebu cadeiriau ychwanegol ar gyfer yr ystafell fwyta, i sicrhau bod digon pe bai'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn dymuno eistedd a bwyta gyda'i gilydd. Bydd darpariaeth dodrefn yn eitem	Rheolwr Gwasanaeth Rheolwr Gwasanaeth	30 Tachwedd 2016 30 Tachwedd 2016 31 Hydref 2016

	sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth y Gwasanaeth	
Rhaid i'r bwrdd iechyd ailwampio'r amgylchedd i sicrhau bod y mannau cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn addas i'r diben.	Camau Gweithredu Brys Cynhaliwyd cyfarfod brys rhwng Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Uwch-reolwyr yr Adran Ystadau, i sefydlu amserlen glir a thryloyw ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd a glanhau ac addurno tu allan yr adeilad.		Cwblhawyd
	Camau Gweithredu Arfaethedig Adolygu a chynhyrchu amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith cynnal a chadw sydd eu hangen, fel y'i nodwyd yn yr adolygiad.	Pennaeth Ystadau	30 Tachwedd 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion priodol wedi eu harddangos o	Camau Gweithredu Arfaethedig		

gwmpas y wardiau ar gyfer cleifion, staff ac ymwelwyr.	Adolygu ac adnewyddu'r arwyddion cyfredol mewn cydweithrediad â Phennaeth Therapi Iaith a Lleferydd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio ag anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.	Pennaeth y Gwasanaeth	30 Tachwedd 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gyfer cleifion yn cael ei harddangos ar y wardiau.	Camau Gweithredu Arfaethedig Adolygu ac adnewyddu'r wybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn y ddwy uned. Dewis pencampwr gwybodaeth cleifion a gweithredu amserlen o wiriadau misol.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	31 Hydref 2016 31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y mecanweithiau ar gyfer dal a chau'r holl ddrysau tân mewnol yn gweithio.	Camau Gweithredu Brys Cynhaliwyd archwiliad tân. Nodwyd diffygion ac archebwyd y darnau sydd eu hangen i gywiro'r diffygion.		Cwblhawyd
	Camau Gweithredu Arfaethedig		

	Mae'r holl fecanweithiau ar gyfer dal a chau drysau tân wedi eu cynnwys mewn gwiriadau cynnal a chadw ataliol. Bydd gwaith gan yr Adran Ystadau i ddatrys problemau'n eitem sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth Ystadau Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016 31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith o lanhau'r ffenestri'n cael ei gwblhau'n rheolaidd.	Camau Gweithredu Arfaethedig Bydd y gwasanaeth yn monitro'r amserlen reolaidd o waith cynnal a chadw a ddarperir gan yr Adran Ystadau. Bydd gwaith gan yr Adran Ystadau i ddatrys problemau'n eitem sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth y Gwasanaeth Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016 31 Hydref 2016

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddodrefn gardd yn cael eu gosod yn eu lle.	Camau Gweithredu Arfaethedig Gwaredu ar ddodrefn a nodwyd eu bod yn anfoddhaol. Cyflwyno cais i'r Adran Ystadau osod y dodrefn yn eu lle ym mannau'r ardd nad ydynt yn cael eu goruchwyllo'n barhaus. Bydd gwaith gan yr Adran Ystadau i ddatrys problemau'n eitem sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016 Cwblhawyd 31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell Adran 136 yn cael ei dodrefnu'n briodol.	Camau Gweithredu Brys Cliriwyd dodrefn amhriodol o'r ystafell ac archebwyd sofffa newydd. Mae darpariaeth Adran 136 yng Nghwm Seren wedi cael ei hatal dros dro wrth i'r ystafell gael ei hailaddurno ac wedyn ei hailagor.		Cwblhawyd

	Camau Gweithredu Arfaethedig Adolygu'r holl ystafelloedd Adran 136 gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i sicrhau bod yr holl ddodrefn yn briodol, yn gyfforddus ac yn ddiogel ar gyfer yr amgylchedd. Bydd darpariaeth ystafelloedd Adran 136 yn cael ei hadolygu fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl.	Pennaeth y Gwasanaeth Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu	31 Hydref 2016 31 Ionawr 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd y wardiau'n briodol ac y gall staff ei reoli trwy gydol y flwyddyn.	Camau Gweithredu Arfaethedig Mae tîm dylunio mewnol yr Adran Ystadau'n adolygu'r drefn gyfredol ar gyfer ffenestri i ystyried opsiynau eraill a allai helpu gydag awyru.	Adran Ystadau	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o welyau o fewn ei wasanaeth iechyd meddwl i ddiwallu anghenion y boblogaeth mae'n ei	Camau Gweithredu Brys Rhodddwyd blaenoriaeth i'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y broses	Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd

gwasanaethu.	uwchgyfeirio, er mwyn sicrhau ymateb priodol i'r pwysau cyfredol ynglŷn â gwelyau. Adolygwyd y broses ar gyfer galwadau cynhadledd. Aeth Pennaeth y Gwasanaeth i Gyfarfod y Pwyllgor Staffio Meddygol i sicrhau dealltwriaeth ac ymgysylltiad meddygol. Cwblhawyd cylch gorchwyl ar gyfer archwiliad o aildderbyniadau o fewn amserlen o dri mis.	Rheolwyr Gwasanaeth	
---------------------	---	--------------------------------	--

wasanaeth.			
	Camau Gweithredu Arfaethedig Bydd yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn cynnal adolygiad o gymysgedd sgiliau a rhoi adroddiad i Bennaeth y Gwasanaeth.	Rheolwr Gwasanaeth	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system larwm staff yn hysbysu'r holl aelodau staff pan fydd yn cael ei gweithredu.	Camau Gweithredu Brys Mae system larwm ac iddi fesurau rheoli i sicrhau diogelwch staff. Wedi cael ei hychwanegu at Gofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth.		Cwblhawyd
	Cam Gweithredu Arfaethedig Adolygu'r ddarpariaeth larymau yn yr holl fannau i gleifion mewnol. Cyflwyno arfarniad o'r opsiynau ar gyfer prynu system larwm newydd lle bo angen.	Rheolwyr Gwasanaeth Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016 30 Tachwedd 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o	Camau Gweithredu Brys		

fewnbwn therapi galwedigaethol yn cael ei ddarparu ar gyfer Parc Dewi Sant tra bo'r swydd therapydd galwedigaethol yn parhau i fod yn wag.	Mae darpariaeth therapi galwedigaethol Band 7 yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel, sydd hefyd yn cynnig mewnbwn i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Mae swydd therapi galwedigaethol datblygol Band 5/6 wedi cael ei hysbysebu.		Cwblhawyd Cwblhawyd
	Camau Gweithredu Arfaethedig Adolygu'r ddarpariaeth therapi galwedigaethol ar draws yr holl unedau iechyd meddwl i oedolion ar gyfer cleifion mewnol. Adrodd canfyddiadau'r adolygiad trwy Gyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Arweinydd Proffesiynol Therapi Galwedigaethol Pennaeth y Gwasanaeth	30 Tachwedd 2016 31 Rhagfyr 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymgeisydd addas yn cael ei recriwtio i'r swydd therapydd galwedigaethol wag.	Camau Gweithredu Brys Nid arweiniodd yr hysbyseb wreiddiol at benodiad, felly mae'r swydd therapi		Cwblhawyd

	galwedigaethol datblygol Band 5/6 wedi cael ei hysbysebu.		
	Cam Gweithredu Arfaethedig Adolygu unwaith eto, os yw'r cylch recriwtio dilynol yn aflwyddiannus.	Arweinydd Therapi Galwedigaethol	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fewnbwn seicolegol yn cael ei ddarparu ar gyfer Parc Dewi Sant, tra bo'r swydd seicoleg yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel yn parhau i fod yn wag.	Cam Gweithredu Brys Atgoffwyd yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel bod ganddynt fynediad at seicolegydd ymgynghorol ar sail atgyfeirio, a dylid cyflwyno gwybodaeth am anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu i Gyfarfod Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion i'w gweithredu.		Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymgeisydd addas yn cael ei recriwtio i'r swydd seicoleg wag.	Camau Gweithredu Brys Recriwtiwyd i'r swydd yn llwyddiannus.		Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai ar gau yw'r safle diodyn ar gyfer paneli arsylwi.	Camau Gweithredu Brys		

	Mae'r holl fleindiau arsylwi integredig wedi cael eu gwirio ar y cyd â'r Adran Ystadau, ac wedi cael eu cau yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig.		Cwblhawyd
	Camau Gweithredu Arfaethedig Bydd yr holl fleindiau arsylwi integredig yn cael eu cau yn yr holl unedau, a bydd y safle diofyn yn cael ei gyfathrebu. Mae allweddi ychwanegol ar gyfer y paneli arsylwi wedi cael eu harchebu.	Pennaeth Nyrsio Pennaeth Ystadau	31 Hydref 2016 31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fleindiau arsylwi integredig yn gweithio.	Camau Gweithredu Brys Mae gan yr Adran Ystadau amserlen o'r gwaith sydd ei angen i sicrhau bod yr holl fleindiau'n gweithio.		Cwblhawyd
	Cam Gweithredu Arfaethedig		

	Bydd yr Adran Ystadau'n cwblhau'r gwaith sydd ei angen ac yn ymchwilio i gyfnewid ffenestri sydd â bleindiau integredig â phaneli arsylwi. Bydd gwaith gan yr Adran Ystadau i ddatrys problemau'n eitem sefydlog ar agenda'r Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth Ystadau Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016 31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod set law'r ffôn yn addas at y diben.	Cam Gweithredu Arfaethedig Ymchwilio i ddarpariaeth amgen a fyddai'n bodloni gofynion rhag y risg o glymu.	Rheolwr Gwasanaeth	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithgareddau therapiwtig priodol ar gael ar gyfer yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig.	Cam Gweithredu Arfaethedig Pan fydd y patrwm sifft newydd yn cael ei weithredu, bydd aelod o staff ar y	Rheolwr y Ward	1 Ionawr 2017

	rota rhwng 9am a 3pm yn benodol i ddarparu ymyriadau therapiwtig. Bydd amserlen o weithgareddau ffurfiol yn cael ei llunio, a bydd y canlyniadau'n cael eu casglu mewn adroddiadau chwarterol a'u hadrodd trwy Gyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion. Cymeradwywyd cyllid i ymuno â Chymdeithas Genedlaethol Unedau Gofal Dwys Seiciatrig.	Rheolwr y Gwasanaeth a Rheolwr y Ward	1 Ebrill 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod cyfarpar priodol wedi'i ddarparu ar gyfer cludo bag yr offer brys.	Cam Gweithredu Arfaethedig Mae Adran Dadebru'r bwrdd iechyd yn rhoi cyngor ynglŷn â darparu troli addas ar gyfer yr offer sydd ar yr uned ar hyn o bryd.	Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod oergell	Cam Gweithredu Brys		Cwblhawyd

feddyginiaeth sy'n gweithio ar y ddwy ward.	Mae gan yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel oergell feddyginiaeth newydd. Mae'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi archebu oergell feddyginiaeth newydd.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymereddau gofynnol.	Cam Gweithredu Brys Mae tymereddau'n cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.		Cwblhawyd
	Cam Gweithredu Arfaethedig Bydd yr adolygiad chwarterol o'r taflenni cofnodi tymheredd yn cael ei adrodd trwy Gyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Rheolwr y Ward	31 Rhagfyr 2016

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff fynediad at bolisiau rheoli meddyginiaeth a gwybodaeth amdanynt i ddiogelu eu hymarfer.	Cam Gweithredu Brys Mae copïau argraffedig o'r polisiau perthnasol ar gael yn y ddwy uned. Mae gan yr holl staff fynediad at y polisiau a'r gweithdrefnau trwy fewnwyd y bwrdd iechyd.		Cwblhawyd
	Cam Gweithredu Arfaethedig Cyflwyno system o daflenni i'w llofnodi i nodi bod staff wedi derbyn ac wedi deall y polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol.	Rheolwr y Ward	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ethnigrwydd cleifion yn cael ei gofnodi bob amser.	Cam Gweithredu Brys Adolygwyd anghenion hyfforddi staff i sicrhau eu bod i gyd yn deall y system TG Partneriaid Gofal newydd.		Cwblhawyd
	Cam Gweithredu Arfaethedig Cyflwyno rhaglen dreigl o archwiliadau	Rheolwr y Ward	31 Rhagfyr 2016

	o ddogfennau. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn ategu'r gwaith o oruchwyllo staff unigol. Bydd safonau ar gyfer cwblhau dogfennaeth yn amcan craidd ar gyfer adolygiadau datblygu perfformiad nyrsys cofrestredig. Bydd ansawdd dogfennaeth yn eitem sefydlog ar agenda'r Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod iaith ddewisol y claf yn cael ei chofnodi bob amser.	Cam Gweithredu Brys Adolygwyd anghenion hyfforddi staff i sicrhau eu bod i gyd yn deall y system TG Partneriaid Gofal newydd.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
	Cam Gweithredu Arfaethedig Cyflwyno rhaglen dreigl o archwiliadau	Rheolwr y Ward	31 Rhagfyr 2016

	o ddogfennau. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn ategu'r gwaith o oruchwyllo staff unigol. Bydd safonau ar gyfer cwblhau dogfennaeth yn amcan craidd ar gyfer adolygiadau datblygu perfformiad nyrsys cofrestredig. Bydd ansawdd dogfennaeth yn eitem sefydlog ar agenda Cyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.	Pennaeth y Gwasanaeth	31 Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y camau gweithredu yn y cynlluniau gofal yn nodi'n benodol pwy sy'n gyfrifol amdanynt, ynghyd ag amserlen y cytunwyd arni.	Cam Gweithredu Arfaethedig Bydd archwiliad o gynlluniau gofal a thriniaeth yn cael ei gynnal yn yr Uned Seiciatrig Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Bydd y canlyniadau'n llywio'r cynllun hyfforddi ar gyfer yr Uned Seiciatrig	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	30 Tachwedd 2016 30 Tachwedd 2016

	Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Llywodraethu Integredig Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y clinigwyr cyfrifol yn cofnodi eu hasesiadau galluedd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.	Cam Gweithredu Arfaethedig Bydd hyn yn eitem ar yr agenda ar gyfer y clinigwyr cyfrifol yn y Pwyllgor Staffio Meddygol. Cytunir ar safon ar gyfer cofnodi asesiadau galluedd. Bydd y canfyddiadau'n cael eu hadrodd trwy Grŵp Busnes, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.	Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol	30 Tachwedd 2016

